

# Yr Asiantaeth yn treialu 'blockchain' am y tro cyntaf

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi llwyddo i gwblhau peilot yn defnyddio technoleg blockchain mewn lladd-dy gwartheg. Dyma'r tro cyntaf i blockchain gael ei ddefnyddio fel dull rheoleiddiol i sicrhau cydymffurfiaeth yn y sector bwyd.

Dyweddodd Sian Thomas, Pennaeth Rheoli Gwybodaeth yr ASB: "Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous iawn. Roeddem ni'n credu y gallai technoleg blockchain ychwanegu gwerth gwirioneddol i faes o fewn y diwydiant bwyd, fel lladd-dai, lle ceir nifer o arolygiadau a chasglu canlyniadau.

"Ein dull o weithredu yw datblygu safonau data gyda diwydiant a fydd yn gwireddu'r theori, ac rwyf wrth fy modd ein bod ni wedi gallu dangos bod blockchain wir yn gweithio yn y maes hwn o'r diwydiant bwyd. Rwy'n credu bod yna gyfleoedd gwych nawr i'r diwydiant a'r llywodraeth gydweithio i ehangu a datblygu'r dull hwn."

## Beth yw blockchain?

Math o gronfa ddata yw blockchain sy'n cymryd nifer o gofnodion ac yn eu rhoi mewn bloc (yn yr un modd â'u casglu nhw ar un darn o bapur). Yna bydd pob bloc yn 'gadwyn' i'r bloc nesaf, gan ddefnyddio llofnod wedi'i amgryptio. Mae hyn yn caniatáu i gadwyni bloc gael eu defnyddio fel cyfriflyfr (ledger), y gall unrhyw un sydd â'r caniatâd priodol ei rannu a'i wirio.

Yn y peilot hwn, roedd gan yr ASB a'r lladd-dy ganiatâd i gael mynediad at ddata, gan roi manteision o ran gwell tryloywder ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd. Bwriedir cynnal peilot arall ym mis Gorffennaf a fydd yn rhoi caniatâd i ffermwyr gael mynediad at ddata am anifeiliaid o'u fferm.

Y cam nesaf fydd gwaith pellach i wneud hyn mewn ffatrioedd eraill a sicrhau bod pawb ar draws y gadwyn yn manteisio ar y ffordd newydd y mae'r data yn cael ei reoli a'i gyrchu fel data 'caniatâd' i'r ASB, lladd-dai a ffermwyr.

Os yw technoleg blockchain yn parhau i fod yn llwyddiannus o fewn y cynllun peilot, byddai'n rhaid i'r defnydd parhaol gael ei arwain gan y diwydiant oherwydd bod y model data cyfredol yn gyfyngedig i gasglu a chyfathrebu canlyniadau arolygu.

## Technoleg Cyfriflyfr Dosbarthedig

Ar ôl sefydlu grŵp cydweithredol Technoleg Cyfriflyfr Dosbarthedig a Bwyd y llynedd, rydym ni'n parhau i weithio gydag arbenigwyr technoleg cyfriflyfr dosbarthedig o'r llywodraeth, y sector bwyd, y diwydiant technoleg a'r byd academiaidd ar ddefnyddio blockchain, gan gynnwys cydymffurfio â rheoliadau bwyd.

[Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth: Technoleg Cyfriflyfr Dosbarthedig: y tu hwnt i blockchain](#)

[Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth: Technoleg Blockchain](#)